Ynni Cymunedol Cymru
Community Energy Wales

# Cydlynydd Rhwydwaith Addysg Ynni

**Lleoliad:** Byddwch yn gallu gweithio o gartref neu o'n swyddfa yn Grangetown, Caerdydd.
**Dyddiad Cau:** 5 yr hwyr, 5 Gorffennaf
**Cyflog:** £31,500 y flwyddyn, llawn amser (28 awr yr wythnos)

Rydym yn gweithredu wythnos waith pedwar diwrnod go iawn, gan gynnig cyflog a buddion llawn amser am 28 awr o waith yr wythnos. Mae ein tîm ymroddedig yn mwynhau tri diwrnod i ffwrdd bob wythnos, gan roi mwy o amser iddynt orffwys ac ailwefru.

Mae Ynni Cymunedol Cymru (YCC) yn chwilio am gydlynydd i helpu i redeg ein Rhwydwaith Addysg Ynni (RAY), er mwyn rhannu dealltwriaeth rhwng grwpiau ynni cymunedol ledled y DU. Chi fydd y swyddog sy'n cynrychioli Cymru mewn tîm sy'n gweithio ar draws y gwledydd i ddarparu adnoddau a sgiliau i bobl sy'n ceisio ehangu a thyfu'r sector ynni cymunedol. Bydd gennych brofiad a/neu ddealltwriaeth o'r sectorau cymunedol, ynni/hinsawdd neu ddysgu, byddwch yn drefnus ac yn gallu cyfrannu at brosiect tîm. Yn ddelfrydol, byddwch yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu bydd gennych brofiad o ddarparu gwasanaethau dwyieithog.

**Ynglŷn â'r RAY**
Mae'r Rhwydwaith Addysg Ynni (RAY) yn helpu prosiectau ynni cymunedol ledled y DU i symud yn eu blaen – gan gynorthwyo rhagor o grwpiau i lansio neu ehangu cynlluniau sy'n datgarboneiddio'r grid, yn meithrin cydnerthedd, yn lleihau biliau ynni ac yn creu buddion ystyrlon i bobl leol.

Mae'r RAY yn rhannu dealltwriaeth ac yn cefnogi cydweithio rhwng cymunedau sy'n gweithredu ym maes ynni, yn ogystal â rhwng y sefydliadau sy'n eu cefnogi ledled y DU. Mae'r RAY yn darparu digwyddiadau am ddim, gwasanaeth mentora ac adnoddau i grwpiau ynni cymunedol presennol, yn ogystal ag i gymunedau sy'n awyddus i gymryd rhan mewn prosiectau ynni lleol am y tro cyntaf.

Ynni Cymunedol Cymru
17 West Bute Street
Caerdydd
CF10 5EP

Community Energy Wales
17 West Bute Street
Cardiff
CF10 5EP

post@ynnicymunedol.cymru

www.ynnicymunedol.cymru

Ynni
Cymunedol Cymru
Community Energy
Wales

**Proffil y Rôl**

- Ehangu'r rhaglen o weithgorau a sicrhau eu bod yn gweithredu'n rheolaidd ac yn effeithlon
- Datblygu perthnasoedd a deialog barhaus ag awdurdodau lleol fel rhan o weithgor Awdurdodau Lleol y RAY
- Cydweithio â chydweithwyr yn Community Energy Scotland, Community Energy England, Action Renewables, Ashden a'r Centre for Sustainable Energy i gyfrannu safbwynt Ynni Cymunedol Cymru at waith ledled y DU, gan gynnwys digwyddiadau ac adnoddau
- Gweithio gyda'n partneriaid yn Ashden i ddarparu rhaglen fentora yng Nghymru
- Creu cynnwys gwefan o'r adnoddau addysg a ddatblygir
- Gweithio fel rhan o Dîm Gwasanaethau Aelodaeth YCC, gan gydweithio â chydweithwyr i gyfarfod ag aelodau'r gymuned a'u cefnogi'n rheolaidd, cynnal gweithgorau a sesiynau rhwydweithio chwarterol y Fforwm Datblygu
- Gweithio gyda'r Rheolwr Datblygu Busnes i nodi cyfleoedd busnes sy'n codi a gweithredu arnynt
- Datblygu, monitro ac addasu cyllidebau prosiectau, gan sicrhau bod yr holl ddangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu cyflawni mewn pryd a bod unrhyw danwariant yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol
- Mynychu holl gyfarfodydd y rhaglen ledled y DU (ar-lein)
- Gweithio gyda chydweithwyr i gynnal adolygiad o wefan YCC a'i hailgynllunio
- Cefnogi gweithgareddau ehangach y RAY ac YCC, gan gynnwys siarad yn gyhoeddus a digwyddiadau ymgysylltu pan fo angen.

**Manyleb y Person**

- Byddwch yn aelod trefnus ac effeithlon o'r tîm sy'n rheoli amser yn dda.
- Bydd gennych brofiad o'r sector ynni cymunedol neu'r mudiad hinsawdd ehangach yng Nghymru, neu ddiddordeb ynddynt.
- Bydd gennych brofiad o gynnal digwyddiadau – ar-lein ac wyneb yn wyneb – a gwybodaeth am arferion gorau ym meysydd rhannu dealltwriaeth a lledaenu gwybodaeth.
- Byddwch yn gallu dangos dealltwriaeth o agwedd fasnachol y busnes.
- Byddwch yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu bydd gennych ddealltwriaeth fanwl o ddarparu gwasanaethau dwyieithog.

Ynni Cymunedol Cymru
17 West Bute Street
Caerdydd
CF10 5EP

Community Energy Wales
17 West Bute Street
Cardiff
CF10 5EP

post@ynnicymunedol.cymru

www.ynnicymunedol.cymru

Ynni Cymunedol Cymru Community Energy Wales

# Energy Learning Network Coordinator

**Location:** You will be able to work from home or our office in Grangetown, Cardiff.
**Closing date:** 5pm, 5 July
**Salary:** £31,500 a year, full time (28 hours per week)

We operate on a true four-day workweek, offering full-time salary and benefits over 28 hours of work per week. Our dedicated team enjoy three days off every week with more time to rest and recharge.

Community Energy Wales (CEW) are looking for a coordinator to help run our Energy Learning Network (ELN) to share learning between community energy groups across the UK. You will be the officer representing Wales in a team working across nations to deliver resources and skills to people seeking to expand and grow the community energy sector You will have experience and/or understanding of the community, energy/climate or learning sectors, be well organised and able to contribute to a team project. Ideally, you will be able to work through the medium of Welsh or you will have experience of delivering bilingual services.

**About the ELN**

The Energy Learning Network (ELN) is powering forward community energy projects across the UK – helping more groups launch or grow schemes that decarbonise the grid, create resilience, reduce energy bills, and create meaningful benefits for local people.

The ELN shares learning and supports collaboration between communities acting on energy, as well as between the organisations that support them across the UK. The ELN delivers free events, a mentoring service and resources to existing community energy groups, as well as to communities looking to become involved in local energy projects for the first time.

Ynni Cymunedol Cymru
17 West Bute Street
Caerdydd
CF10 5EP

Community Energy Wales
17 West Bute Street
Cardiff
CF10 5EP

post@ynnicymunedol.cymru

www.ynnicymunedol.cymru

Ynni
Cymunedol Cymru
Community Energy
Wales

**Role Profile**

- Expand programme of working groups & ensure their regular & efficient functioning
- Develop relationships and ongoing dialogue with local authorities as part of the ELN's Local Authorities working group
- Cooperate with colleagues in Community Energy Scotland, Community Energy England, Action Renewables, Ashden and Centre for Sustainable Energy to input from Community Energy Wales on UK wide work including events and resources
- Work with our partners Ashden to deliver a mentoring programme in Wales
- Create website content from learning resources developed
- Work as part of CEW's Membership Services Team, working with colleagues to routinely meet and support community members, deliver working groups and quarterly fforwm datblygu networking sessions.
- Work with the Business Development Manager to identify & follow up business opportunities that arise
- Develop, monitor, and adjust project budgets, ensuring all KPI's are delivered on time and any underspent is effectively utilised
- Attendance at all UK wide (online) programme meetings
- Work with colleagues to conduct a website review and re-design on CEW's website
- Support in wider ELN and CEW activities including public speaking and engagement events when necessary.

**Person Specification**

- You will be an organised, time efficient team player.
- You will have experience or an interest in the community energy sector or wider climate movement in Wales.
- You will have experience of running events - online and in person and of best practice in the fields of shared learning and information dissemination.
- You will be able to demonstrate understanding of the commercial aspect of the business
- You will be able to work through the medium of Welsh or have a high-level understanding of providing bilingual services.

Ynni Cymunedol Cymru
17 West Bute Street
Caerdydd
CF10 5EP

Community Energy Wales
17 West Bute Street
Cardiff
CF10 5EP

post@ynnicymunedol.cymru

www.ynnicymunedol.cymru